

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Cyngor Sir
DYDDIAD	08 Mawrth 2011
TEITL YR ADRODDIAD:	Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2011-14 <i>(Mae copi o'r Cynllun ar gael gan yr Adran pe dymunir)</i>
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cyflwyno'r Strategaeth IGCLL 2011-14 er cymeradwyaeth i'w mabwysiadu am gyfnod o 3 blynedd o 01.04.11 hyd at 31.03.14 gydag adolygiadau blynyddol.
ADRODDIAD GAN:	CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

1. Cyflwyniad

- 1.1 Gall y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar ei ben ei hun ddim cyflwyno na chynnal iechyd da. Gwasanaeth ydyw yn bennaf i ymdrin ag afiechyd a chlefydau. Hynny yw, ceisio gofalu fod pobl sy'n mynd yn sâl, neu lle mae eu salwch yn gwaethygu, yn cael eu trin yn iawn gan bobl broffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel eu bod yn medru byw eu bywydau fel y dylent. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwyfwy amlwg fod modd atal rhai o'r clefydau hirdymor sydd ar bobl, a bod afiechyd yn medru cael ei achosi gan ffactorau a phenderfynyddion ehangach megis yr amgylchedd, gweithgaredd economaidd, cyflwr a safon tai, ynysu cymdeithasol, amddifadedd cymdeithasol, dulliau a phatrymau o fyw o ddydd-i-ddydd, ynghyd a ffactorau eraill.
- 1.2 Hon yw'r drydedd Strategaeth IGCaLI i'w chyhoeddi ar gyfer ei gweithredu am gyfnod o dair blynedd rhwng 2011-14. Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y strategaethau blaenorol a gyhoeddwyd yn 2005 a 2008. Mae'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cynulliad cymru yn 2010 yn gosod cyfrifoldeb statudol ar y Byrddau Iechyd rhanbarthol i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn cynhyrchu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar y cyd gyda rhanddalwyr allweddol eraill megis:
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
 - Medrwn Môn
 - Cyngor Iechyd Cymdeithas
 - Y Sector Breifat
- 1.3 Yn dilyn adolygiad o'r asesiad anghenion lleol, cyhoeddwyd 'Bywyd Môn 2010' fel sail i lunio blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth hon. O ganlyniad, mae'r Bartneriaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles wedi cadarnhau'r 3 them ar gyfer blaenoriaethu gwasanaethau a fabwysiadwyd yn yr ail Strategaeth ar gyfer 2008-11. Y 3 them yw:
- Hyrwyddo dulliau a phatrymau byw'n iach
 - Rheoli clefydau Hirdymor
 - Hyrwyddo annibyniaeth ar gyfer pobl fregus.

Mae'r Bartneriaeth wedi adnabod meysydd gwasanaeth a blaenoriaethau o dan pob un o'r themau uchod er mwyn cynllunio, comisiynu, datblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion Ynys Môn.

- 1.4 Gan fod y Strategaeth IGCaLL ar gyfer 2011/14 yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd tros y 3 blynedd diwethaf, cyhoeddwyd Crynodeb o'r Strategaeth a'r cyfeiriad strategol ar gyfer 2011/14 er mwyn cynnal cyfnod ymgynghori statudol o 3 mis gyda'r cyhoedd rhwng Tachwedd 2010 a diwedd mis Ionawr 2011. Mae'r Strategaeth hon felly wedi cael ei llunio yn seiliedig ar:
 - Ganlyniadau'r adolygiad o asesiad anghenion – 'Bywyd Môn 2010';
 - Trafodaethau helaeth gyda staff a rhanddalwyr allweddol trwy'r broses gynllunio;
 - Yr adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd a rhanddalwyr allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori.
 - Cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gynnwys y Strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo cydraddoldeb yn ein gwasanaethau.
 - Y meysydd ble gellir sylweddoli'r enillion iechyd gorau drwy weithio mewn partneriaeth.
- 1.5 Yn ei gyfarfod ar 22.02.11, cymeradwywyd y Strategaeth hon gan y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles er ei chyflwyno i'r Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Betsi cadwaladr i'w mabwysiadu'n ffurfiol er ei gweithredu am gyfnod o 3 blynedd o'r 1af o Ebrill 2011.

2. Materion Allweddol

- 2.1 Mae Pennod 3 yn y Strategaeth hon yn cyflwyno'r prif negeseuon a ddaeth yn amlwg wrth gynnal adolygiad o'r asesiad anghenion yn y ddogfen 'Bywyd Môn 2010'. Mae'r themau a'r meysydd gwasanaeth a'r blaenoriaethau sydd wedi cael eu hadnabod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau polisi cenedlaethol yng Nghymru a chydabyddir mai'r meysydd hyn yw'r blaenoriaethau ble gellir cyflawni cynnydd trwy weithio mewn partneriaeth.
- 2.2 Mae Pennod 4 yn y Strategaeth hon yn adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd yn y meysydd gwasanaeth allweddol o dan y dair themau blaenoriaeth rhwng 2008-11.
- 2.3 Mae Pennod 5 yn adnabod y penderfynyddion ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd a lles unigolion, eu dewisiadau a'r ffordd o fyw. Dengys hyn bod addysg, tai, yr economi a'r amgylchedd yn cyfrannu at gyflwr iechyd a lles y boblogaeth yn gyffredinol.
- 2.4 Mae Pennod 6 yn gosod allan y fframwaith a'r cyfeiriad ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynradd a chymunedol mewn modd mwy integredig ar lefel leol er mwyn cyfarch anghenion o fewn y boblogaeth gyfan.

- 2.5 Mae Pennod 7 yn y Strategaeth (gweler Atodiad 1 i'r adroddiad hon) yn gosod allan y cyfeiriad strategol ar gyfer gwella canlyniadau iechyd a lles i ddinasyddion Ynys Môn yn y meysydd gwasanaethau allweddol sydd wedi'u hadnabod o dan y 3 thêm. 'Rydym wedi defnyddio dull Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau er mwyn strwythuro'r cyfeiriad ar gyfer datblygu'r meysydd gwasanaeth allweddol. Byddwn yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad mwy manwl ar gyfer y meysydd gwasanaeth allweddol a bydd y Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn monitro ac adolygu cynnydd yn ystod cyfnod gweithredol y Strategaeth hon tros y dair blynedd nesaf. Bydd y Strategaeth hefyd yn cael ei hadolygu yn flynyddol.
- 2.6 Wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r prif Bartneriaethau eraill ar yr Ynys, megis Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r Partneriaethau yma yn ystod y cyfnod gweithredol er mwyn sicrhau cysondeb, lleihau dyblygu ac ychwanegu gwerth.
- 2.7 Bydd y Strategaeth hon hefyd yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 23.03.11 er cymeradwyaeth i'w mabwysiadu a'i gweithredu o 01.04.11 ymlaen.
- 2.8 Bydd copi llawn o'r Strategaeth hon ar gael ar safleoedd gwe'r Cyngor Sir, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a phartneriaid eraill o 01.04.11 ymlaen. Nid oes bwriad i argraffu'r Strategaeth ar bapur yn yr hinsawdd economaidd ac ariannol bresennol, ond bydd modd argraffu copïau yn ôl yr angen.

3. Argymhellion

- 3.1 Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2011/14 i'w gweithredu ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o 01.04.11 hyd at 31.03.14 gydag adolygiadau flynyddol.
- 3.2 Bod y Cyngor Sir yn awdurdodi'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y Strategaeth hon yn ystod y cyfnod gweithredol tros y dair blynedd nesaf hyd at ddiwedd Mawrth 2014.

Adran 7: Deilliannau Strategol ar gyfer Themâu Blaenoriaeth 2011-14

Rhydd yr adran hon fanylion y 3 Thema Blaenoriaeth ar gyfer Strategaeth IGCLI Ynys Môn 2011-14, sef:

1. Dulliau Byw'n Iach
2. Cyflyrau Cronig
3. Hybu Annibyniaeth

Fel y dangoswyd o'r blaen, mae'r themâu hyn yn adlewyrchu:

- blaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- y prif negeseuon o ddogfen asesu anghenion Bywyd Môn 2010
- meysydd lle y gall Partneriaeth IGCLI ychwanegu gwerth at ddarpariaeth asiantaeth sengl
- hybu dulliau iach o fyw ac integreiddio cymunedol
- canolbwyntio ar hybu annibyniaeth, ail-alluogi ac atal afiechyd yn fuan.
- canolbwyntio ar gynorthwyo pobl i reoli eu cyflyrau iechyd eu hunain yn eu cymuned
- canolbwyntio ar nodi a chyflawni deilliannau cadarnhaol i drigolion a chymunedau Ynys Môn a lleihau anghydraddoldebau ac annhegwch mewn iechyd.

Mae'r tair Thema Blaenoriaeth yma yr un fath â'r Strategaeth IGCLI 2008-11 gyfredol. Fodd bynnag, mae'r Meysydd Blaenoriaeth o'u mewn wedi eu rhesymoli ymhellach. Mae angen i ni sicrhau y caiff yr adnoddau, sydd ar gael i'r Bartneriaeth, eu targedu at feysydd lle y gellir sicrhau'r 'enillion iechyd' mwyaf, a bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithlon o fewn cyfyngiadau'r hinsawdd ariannol heriol bresennol.

Er bod y broses resymoli hon wedi arwain at leihad cyffredinol yn nifer y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y themâu, mae Partneriaeth IGCLI wedi cydweithio'n agos gyda phartneriaethau cysylltiedig eraill ar Ynys Môn, megis Partneriaethau 'Plant a Phobl Ifanc' a 'Diogelwch Cymunedol', er mwyn sicrhau nad yw llifoedd gwaith pwysig yn cael eu dyblygu na'u colli.

Strwythurwyd y Themâu Blaenoriaeth gan ddefnyddio methodoleg Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (ASC), ac felly maent yn rhoi'r manylion canlynol:

- Y canlyniad i'r boblogaeth
- Sut byddai'r canlyniad yn edrych pe gallem ei weld neu pe baem wedi ei gyflawni
- Mesurau llwyddiant allweddol
- Y gwasanaethau y byddwn yn eu datblygu i gyflawni'r canlyniad

Mae mesurau perfformiad lefel gwasanaeth mwy manwl wrthi'n cael eu datblygu i eistedd gyda'r Strategaeth hon. Defnyddir y rhain gan Fwrdd y Bartneriaeth IGCLI i fonitro cynnydd yn erbyn y canlyniadau a roddir isod.

Thema Blaenoriaeth IGCLI 1: Dulliau Byw'n Iach

Canlyniad: Y bobl o bob oed sy'n byw ar Ynys Môn yn fwy iach.

Sut byddai'r canlyniad hwn yn edrych pe gallem ei weld?

Byddai poblogaeth Môn:

- heb ei niweidio drwy ysmegu tybaco
- yn fwy egnïol yn gorfforol
- yn bwyta diet iachach ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyd
- yn mwynhau iechyd a lles meddyliol da

Beth yw mesurau allweddol llwyddiant?

- Gostyngiad yng nghyfradd ganrannol ysmegu mewn oedolion
- Cynnydd yng nghanran yr oedolion sy'n cyrraedd y canllawiau gweithgarwch corfforol (5x30)
- Gostyngiad yng nghanran yr oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew
- Cynnydd yng nghanran yr oedolion sy'n bwyta mwy o ffrwythau a llysiau (5 y dydd)
- Cynnydd yng nghanran y mamau sy'n bwydo ar y fron ar ôl 1, 3 a 6 mis
- Cynnydd yn sgôr gryno cydran meddwl y SF-36 (mae sgôr uwch yn arwydd o iechyd meddwl gwell)

Pa wasanaethau fyddwn ni'n eu datblygu i gyflawni'r canlyniad?

Ysmegu – Hybu Gwasanaeth Dim Smygu Cymru ymhellach; hybu pellach y mentrau atal ysmegu mewn ysgolion ac yn y gymuned megis Bygiau Baco, ASSIST (Treial rhoi'r gorau i ysmegu mewn ysgolion), a'r Gwasanaeth Tân ac Achub; Parhau i ddatblygu gwasanaethau atal ysmegu mewn lleoliadau gwahanol (megis meddygfeydd, ysbytai a fferyllfeydd cymunedol);

parhau i orfodi'r ddeddfwriaeth Ysmegu mewn Mannau Cyhoeddus; lleihau'r niwed oddi wrth ysmegu yn enwedig ymhlith pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig, teuluoedd, merched beichiog a phobl ag anghenion iechyd meddwl.

- **Gweithgarwch Corfforol*** - Canolbwyntio ar hybu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion; annog mwy o bobl o bob oed i ymuno â chlybiau chwaraeon a dod yn aelodau am oes; hybu ymhellach weithgareddau cynaliadwy i laweroedd gymryd rhan megis cerdded a beicio, ac felly hybu cludiant a theithio egnïol; datblygu ymhellach weithgareddau cymunedol i bobl hŷn; cynorthwyo pobl ag afiechydon cronig i gynnal a gwella eu hiechyd drwy weithgarwch corfforol.
- **Bwyta'n Iach*** – Hybu cychwyn iach mewn bywyd drwy godi cyfraddau bwydo ar y fron; annog plant a phobl ifanc i fwyta mwy o ffrwythau a llysiau yn yr ysgol a thu allan; cefnogi pobl o bob oed, yn enwedig rhai mewn teuluoedd difreintiedig, i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau ynghylch bwyta'n iach; cynorthwyo pobl agored i niwed, megis pobl ag anabledau dysgu a phobl hŷn mewn lleoliadau gofal i wella'u diet.

- **Iechyd Meddwl a Lles** - helpu pobl o bob oed i gynnal a gwella cyfalaf cymdeithasol (ansawdd a swm eu rhyngweithio cymdeithasol); cynorthwyo unigolion agored i niwed i gynnal eu hannibyniaeth ac osgoi cael eu hynysu; gwasanaethau cymunedol sy'n hybu iechyd meddwl da a lleihau achosion o gamddefnyddio alcohol a sylweddau, hunan-niwed a hunanladdiad.

*Mae Hybu Gweithgarwch Corfforol a Bwyta'n Iach yn bwysig i helpu pobl i gadw pwysau iach. Gwasanaethau a ddarperir yn y ddau faes yma felly fydd yn mynd i'r afael â'r dasg o leihau Gordewdra.

Roedd Strategaeth IGCLI 2008-11 yn canolbwyntio ar Feysydd Blaenoriaeth eraill o fewn thema Dull Iach o Fyw. Serch hynny, er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y meysydd yma, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Strategaeth bresennol gan fod asiantaethau unigol yn gyfrol am eu datblygu. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn y tabl isod, sy'n crynhoi eu cyfeiriad i'r dyfodol:

	Thema	Cyfeiriad i'r dyfodol
1	Camddefnyddio Sylweddau ac Alcohol	Maes allweddol dan arweiniad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Môn, gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru.
2	Iechyd Rhywiol	Bydd BIPBC yn cymryd yr awenau ar Rwydwaith Iechyd Rhywiol Gwynedd a Môn, fel is-grŵp o Grŵp Iechyd Rhywiol Gogledd Cymru. Cefnogir y gwaith gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
3	Iechyd Corfforaethol	Cyfrifoldeb pob cyflogwr yw sicrhau ei fod yn amddiffyn ac yn gwella iechyd corfforol a meddyliol ei weithwyr. Mae hyn yn neilltuoel o bwysig yn yr hinsawdd economaidd heriol lle mae swyddi dan fyggythiad. Mae gan yr asiantaethau o fewn Partneriaeth IGCLI Ynys Môn i gyd eu canolbwynt eu hunain ar wella Iechyd Corfforaethol drwy gyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol. Mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd fel cyflogwyr mawr i ymarfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol o fewn y gymuned a chynorthwyo cyflogwyr lleol llai gyda'u gweithgareddau Iechyd Corfforaethol.
4	Rheoli Haint	Mae hyn yn cynnwys meysydd megis imiwneiddiadau plentyndod a brechiadau'r fflw i bobl hŷn a'r unigolion hynny o bob oed a nodwyd fel rhai 'mewn perygl'. I gael ei arwain gan BIPBC, gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru.
5	Iechyd y Geg	I gael ei arwain gan BIPBC.
6	Atal Anafiadau	Caiff y gwaith o atal anafiadau ymhlith plant a phobl ifanc ei arwain gan y Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc; arweinir y gwaith o atal codymau ymhlith Pobl Hŷn gan Strategaeth Pobl Hŷn a'r Gwasanaeth Atal Codymau Cymunedol.

Thema Blaenoriaeth IGCLI 2: Cyflyrau Cronig

Canlyniad: Mae pobl â Chyflyrau Cronig ar Ynys Môn yn derbyn cefnogaeth yn unol â'u hanghenion i gynnal iechyd a lles ar y lefel optimwm.

Sut fyddai'r canlyniad hwn yn edrych pe gallem ei weld?

Bydd poblogaeth Ynys Môn:

- yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu Cyflyrau Cronig
- yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau atal yn ymwneud â Chyflyrau Cronig

Bydd pobl â Chyflyrau Cronig ar Ynys Môn:

- yn rheoli eu sefyllfa eu hunain
- â'r gallu i gymryd mesurau atal i wella a chynnal ffordd iach o fyw
- yn derbyn ymyriadau cynharach a gofal priodol yn y gymuned
- â mynediad at bwynt cyswllt unigol sy'n hwyluso darparu gofal i gwrdd â'u hanghenion
- â mynediad at amrywiaeth o wasanaethau integredig i hybu adferiad, annibyniaeth a byw yn y gymuned
- yn derbyn lefel deg o ofal, waeth pa mor wledig yw eu cymuned

Beth yw'r prif fesurau llwyddiant?

- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu rhaglenni hunan-reoli
- Meddyginiaethau mwy effeithiol
 - (e.e. gostyngiad mewn aml-fferylliaeth a gwell cydymffurfiad)
 - Cynnydd yn nifer yr Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau (MURs)
- Llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty fel achosion brys
- Gostyngiad mewn cyfraddau derbyn lluosog o fewn 30 diwrnod ac o fewn 12 mis
- Gostyngiad yn hyd arosiadau i bobl â chyflyrau cronig sy'n cael eu derbyn fel achosion brys
- Llai o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToC)
- Gwell defnydd o wasanaethau allan o'r ysbyty

Pa wasanaethau fyddwn ni'n eu datblygu i sicrhau'r canlyniad?

- Gwasanaethau **hunan-reoli** i hybu annibyniaeth, e.e. y Rhaglen Cleifion Arbenigol a Theleofal / Teleiechyd
- **Gwasanaethau atal** fel cynlluniau 'Atal Codymau' ac 'Ymarfer Corff trwy Wahoddiad'

- Ymyrraeth **fferylliaeth** wrth i ysbytai cymunedol a Meddygfeydd adolygu arferion rhoi presgripsiynau er mwyn sicrhau defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau
- **Un pwynt mynediad** i gleifion fanteisio ar ofal
- **Gofal Canolraddol** yn y cartref ac mewn lleoliadau gofal amgen, e.e. ysbyty cymunedol, cartref gofal neu dai gofal ychwanegol er mwyn helpu i osgoi derbyniadau a hwyluso rhyddhau'n fuan o ysbytai
- **Cyd-gysylltu gofal** wrth i dîm amlddisgyblaethol gynorthwyo cleifion ag anghenion cymhleth
- **Gwasanaethau cleifion allanol a therapi allgymorth** yn dod â gwasanaethau yn nes at gleifion
- **Gwasanaethau diagnostig** yn cynnwys profion pelydr-x ac uwchsain
- **Gofal Seibiant** gyda chymorth Awdurdod Lleol

Thema Blaenoriaeth IGCLI 3: Hybu Annibyniaeth

Canlyniad: Yr oedolion agored i niwed sy'n byw ym Môn yn cael eu grymuso i fyw bywydau annibynnol, diogel a boddhaol yn yr amgylchedd o'u dewis.

Sut byddai'r canlyniad hwn yn edrych pe gallem ei weld?

Byddai oedolion agored i niwed ar Ynys Môn yn derbyn:

- Adnabyddiaeth cynnar o'u risgiau a'u hanghenion gan y tim aml-ddisgyblaethol lleol a byddent yn derbyn cefnogaeth cydlynol ar gyfer cyfarfod eu hanghenion gofal cymhleth
- Cymorth i fyw yn eu cartrefi eu hunain gyhyd ag y bo modd
- Mynediad amserol at wybodaeth am amrediad o wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael ar draws yr holl asiantaethau
- Mynediad amserol at wasanaethau sy'n hybu annibyniaeth ac yn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hir.
- Mynediad at wasanaethau sy'n eu trin ag urddas a pharch
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden
- Mynediad at gyfleoedd i wirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth
- Bywydau bodlon drwy gynyddu incwm a budd-daliadau
- Mynediad at ystod o dai addas a fforddiadwy
- Mynediad ar gludiant priodol sydd o fewn cyrraedd
- Mwy o reolaeth a dewis yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'r ffordd y maent yn byw eu bywydau
- Teimlad o fyw'n ddiogel mewn amgylchedd o'u dewis

Beth yw mesurau allweddol llwyddiant?

- Cynnydd yn nifer y bobl a gynorthwyr i fyw yn eu cartrefi/cymunedau eu hunain
- Gostyngiad yn yr amser i ryddhau pobl o ysbytai i'r amgylchedd gofal (Oedi wrth Drosoglwyddo Gofal)
- Gostyngiad yn yr amseroedd disgwyl rhwng atgyfeirio a'r cyswllt cyntaf ac asesiad
- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio cyfleoedd cymdeithasol a hamdden yn y gymuned
- Cynnydd yn nifer yr oedolion o grwpiau agored i niwed sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol, hyfforddiant a gwaith
- Cynnydd ym modlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth gyda'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn

Pa wasanaethau fyddwn ni'n eu datblygu i gyflawni'r canlyniad?

- **Teleofal** - Defnyddio technoleg yn y cartref i helpu pobl i fyw yn ddiogel ac yn fwy annibynnol yn eu cymunedau, a lleihau'r nifer sy'n cael eu derbyn yn gynnar a'u haillderbyn i leoliadau gofal.
- **Ailalluogi** - darparu gwasanaeth ail-alluogi pwrpasol sy'n cael ei arwain gan therapi ac yn canolbwyntio ar y canlyniadau. Mae'r gwasanaeth yn galluogi unigolion i wella o gyfnod o afiechyd, anaf a llawdriniaeth neu addasu i anabledd a'r nod yw gwella gallu'r unigolyn i weithredu, ei annibyniaeth, ei hyder a'i les. Mae adolygiadau rheolaidd yn nodwedd annatod o'r gwasanaeth ac felly mae'n atal pobl rhag mynd yn ddibynnol ar wasanaethau yn y tymor hir. Mae sbectrwm ail-alluogi yn cynnwys ail-alluogi cymunedol, Gofal Canolradd preswyl (cyfleuster camu i fyny/camu i lawr), gwasanaethau ymateb mewn argyfwng/ymateb cyflym, ymyriad cynnar ac atal.
- **Gofalwyr** - Nifer o wasanaethau sydd wedi eu bwriadu i gynorthwyo gofalwyr i barhau yn eu swyddogaeth ofalu, a manteisio ar gyfleoedd yn eu bywyd y tu allan i ofalu. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys gwybodaeth a chyngor, cefnogaeth yn eu swyddogaeth ofalu, gofal seibiant a gwyliau ystyrlon oddi wrth ofalu, cymorth i aros mewn addysg neu i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a/neu waith, a chymorth i fyw bywydau llawn.
- **Offer, Addasiadau a Diogelwch yn y Cartref** – Gall addasiadau i amgylchedd cartref unigolion fod o gymorth iddynt fyw'n annibynnol ac yn fwy diogel yn ogystal â bod o gymorth i'r gofalwyr yn eu trefniadau gofalu ymarferol. Mae ganddynt rôl sylweddol i'w chwarae hefyd mewn hyrwyddo trefniadau rhyddhau o'r ysbyty ac atal y posibilrwydd o dderbyn unigolion i'r ysbyty neu gartref gofal, e.e. canllawiau, lifft grisiau, ramp, teclyn codi, stôl uchel, cymhorthion bath a thoiled.
- **Gweithgareddau Cymdeithasol a Hamdden** – Ystod o weithgareddau yn y gymuned sy'n hybu iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol da. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau mewn Clybiau Heneiddio'n Dda a Thros 50, Grwpiau Cerdded i bobl ag anghenion lechyd Meddwl a gweithgareddau chwaraeon ar gyfer pobl ag anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu.

- **Gweithgarwch Economaidd** - Gwasanaethau sy'n rhoi cyfleoedd i oedolion agored i niwed i gael mynediad at waith gwirfoddol, hyfforddiant a gwaith. Y gwasanaethau allweddol fydd o gymorth i ddarparu hyn fydd rhwydwaith Heneiddio'n Dda a phrosiect 'Taith i Waith'.
- **Cymorth cysylltiedig â Llety a Thai** – Datblygu amrywiaeth o ddewisiadau addas o ran llety, gofal a chefnogaeth i oedolion agored i niwed. Mae enghreifftiau'n cynnwys tai o fewn cyrraedd sy'n fforddiadwy, llety cysgodol, gwasanaethau cymorth warden cymunedol, byw gyda chymorth, tenantiaeth lle ceir cefnogaeth, a thai gyda gofal ychwanegol.